## EITEM 8 – CWESTIYNAU

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Mewn cyd destun y penderfyniad diweddaraf gan Y Sefydliad Goruchaf, pa drefniadau sydd mewn lle er mwyn cadarnhau fod merchaid yng Ngwynedd yn cael mynediad i lefydd a chyfleoedd o bob math ar gyfer merched yn unig.

**Ateb – Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg, Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Mae’r Cyngor yn y broses o ystyried oblygiadau’r ddyfarniad gan ystyried gwybodaeth bellach e.e. Canllawiau Interim y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill. Dylid nodi fod y Comisiwn yn edrych i ddiweddaru eu canllawiau ar ôl ymgynghori, a'u rhoi gerbron Llywodraeth San Steffan cyn toriad yr haf. Yn ôl y Comisiwn “Gwyddom fod gan lawer o bobl gwestiynau am y dyfarniad a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt. Bydd ein canllawiau wedi'u diweddaru yn rhoi mwy o eglurder.”

Byddwn yn edrych ar ein polisïau, canllawiau, gweithdrefnau ac yn y blaen i weld os ydynt yn cyd-fynd gyda’r dyfarniad.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Sian Williams**

Mater pwysig sydd wedi dod i’m sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yn fy nhref fi fy hun, Cricieth, yw ymddygiad gwrth-gymdeithasol ymysg pobl ifanc. Mae’n bwnc sy’n fy mhoeni yn arw, gan mai ein cyfrifoldeb ni, fel cymdeithas, yw meithrin a chefnogi y genhedlaeth nesaf i fod yn ddinasyddion crwn a chyfrifol sy’n gweld gobaith a gwerth ynddynt eu hunain, ac yn eu pentrefi, trefi a’u hardaloedd.

Nid yw Cricieth yn unigryw. Mae na ardaloedd eraill yng Ngwynedd sy’n dioddef heriau tebyg, ac mae na siroedd eraill ledled Cymru a thu hwnt yn cael trafferthion. Does ond angen i chi agor papur newydd neu ddarllen negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i weld sut mae pethau.

Mae’n bwysig i ni fynd at wraidd y trafferthion. Pam bod pobl ifanc yn ymddwyn fel hyn a beth allwn ni wneud, fel cymuned, i’w cefnogi neu daclo’r trafferthion? Yng Nghricieth, rydym wedi gweld difrod i’r toiledau cyhoeddus a’r maes, dringo ffensys i erddi preifat; dwyn o siopa lleol a chysgu dros nos mewn meysydd parcio.

Yn amlwg, mae’r heddlu ac asiantaethau eraill yn ymwybodol o’r sefyllfa ac mae gweithredu a chydweithio yn digwydd.

Ond gyda’r tywydd braf diweddar, mae’r sefyllfa wedi gwaethygu. Mae’r lleiafrif bach o bobl ifanc sy’n ymddwyn fel hyn wedi eu diarddel o’r ysgol. Mae’r gosb yn profi i fod yn aneffeithiol gan nad ydynt yn derbyn cefnogaeth nac arweiniad trwy’r ysgolion na chan wasanaethau eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Fy nghwestiwn i ydi, a oes modd agor trafodaeth gydag adran addysg y cyngor ac asiantaethau cefnogi eraill er mwyn ystyried ffordd arall o daclo’r heriau sy’n wynebu’r bobl ifanc yma a’u teuluoedd? Proses o gynnig arweiniad a chefnogaeth, yn hytrach nac esgymuno bobl ifanc, sy’n amlwg, yn profi heriau bywyd? System fyddai’n diogelu’r bobl

ifanc yma a'i harwain ar hyd llwybr gwell, fel bod modd i'r gymuned yng Nghricieth gysgu yn dawelach y nos ac ymfalchïo o fod wedi estyn llaw, yn hytrach na phardduo bobl ifanc yr ardal i gyd ag un brwsh? Wedi'r cyfan llond llaw sy'n ymddwyn fel hyn, mae'r mwyafrif o'n pobl ifanc yn gyfrifol ac yn foneddigaidd.

Dyma ddyfodol ein cymdeithas, maent yn werthfawr ac yn bwysig, ac yn fy marn i, mae buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf yn hollbwysig i ni, yma, yng Ngwynedd.

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones**

Diolch o galon am godi'r mater pwysig hwn. Rwy'n cytuno'n llwyr fod ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc yn fater sy'n haeddu sylw brys a gofalus, ac rwy'n gwerthfawrogi eich ymrwymiad i chwilio am atebion adeiladol.

Byddwn i, a'r adran Addysg yn fwy na pharod gwrdd â chi i drafod y pwnc ymhellach. Rwy'n cytuno'n llwyr fod angen cynnwys yr adran Addysg mewn trafodaethau, ond credaf hefyd fod y mater yn llawer ehangach na hynny. Mae'n fater sy'n gofyn am ymateb trawsadrannol, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac, wrth gwrs, y gymuned ehangach.

Rydym yn gweld yn glir fod gwaharddiadau o'r ysgol, er eu bod yn weithred ddisgyblaethol, yn aml yn gwaethygu'r sefyllfa yn hytrach na'i datrys. Mae pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn colli strwythur, cefnogaeth a mynediad at fodelau rôl gadarnhaol yn ystod cyfnodau allweddol yn eu bywydau. Yn hytrach na chynnig arweiniad a chymorth pan fo'r angen mwyaf, mae'r weithred o wahardd yn gallu creu pellter a mwy o risg iddynt syrthio'n ddyfnach i batrymau niweidiol.

Mae'n hanfodol felly ein bod yn edrych ar atebion sy'n canolbwyntio ar gynnwys, cefnogi a grymuso ein pobl ifanc, nid eu gwthio i'r cyrion. Mae'r dull hwn nid yn unig yn cynnig gwell dyfodol i'r unigolion dan sylw, ond hefyd yn cryfhau ein cymunedau lleol yn y tymor hir.

Edrychaf ymlaen at drefnu cyfarfod gyda chi i drafod y camau nesaf, ac i weithio gyda'n gilydd er mwyn creu dull sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc yma yng Ngwynedd.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Elfed Williams**

Mae trigolion Gwynedd yn parhau i ddioddef dros ddeg mlynedd ers i gynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru achosi difrod i'w cartrefi gan eu gadael yn llaith, yn flêr ac angen gwaith atgyweirio.

Mae rhai trigolion tai preifat yn Neiniolen, Dinorwig, Clwt y Bont a Fachwen ar eu colled yn ariannol ac eraill yn cael trafferth talu am waith atgyweirio.

Bwriad y prosiect Arbed, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd gwella effeithlonrwydd ynni'r tai gan sicrhau y byddai'r perchnogion â biliau ynni is. Ond mae gwaith israddol yn ardal Deiniolen wedi gadael y perchnogion â thai llaith sy'n datblygu'n llwydni, pibellau draenio wedi eu hail osod yn anghywir, render blêr a chraciau yn y waliau.

Yn ddiweddar, mae 42 o dai yn Arfon wedi eu cymeradwyo am waith atgyweirio gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu'n fawr y gwaith yma i dai drigolion y gymuned, ond rwy'n parhau i bryderu am y trigolion na fydd yn gymwys am y gwaith atgyweirio o dan gynllun Llywodraeth Cymru eleni.

Mae'n hen bryd i holl drigolion Deiniolen weld eu tai yn cael eu cywiro, wedi dioddef y difrod i'w heiddo ers cymaint o flynyddoedd. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw unioni'r cam yma, o ganlyniad i waith is-raddol a wnaed o ganlyniad i'w prosiect Arbed.

Fy nghwestiwn i felly; ydi'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod trigolion tai Arfon i gyd yn derbyn gwaith atgyweirio gan Lywodraeth Cymru ac yn derbyn y gefnogaeth briodol sy'n ddyledus iddynt?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Hoffwn amlygu i ddechrau mai cynllun Llywodraeth Cymru oedd Arbed, ac roedd llawer o gartrefi ledled Cymru wedi cael eu heffeithio gan waith diffygiol o dan y Cynllun hwnnw, nid yn unig yn Arfon ond mewn llawer o lefydd eraill ledled Cymru. Mae'r broses o sicrhau datrysiad teg drwy ddilyn y broses hawlio a osodwyd gan Lywodraeth wedi bod yn hir, ac yn aml yn gymhleth iawn. Mae'r perchnogion eiddo wedi rhoi llawer o amser ac ymdrech i wneud hynny.

Bu Siân Gwenllian, Aelod o'r Senedd dros Arfon, yn codi'r mater gyda'r Llywodraeth ers 2017 a'r llynedd cytunodd Llywodraeth Cymru i edrych ar achosion y trigolion oedd wedi cysylltu â hi. Yn anffodus mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd unrhyw achosion newydd yn cael eu hychwanegu at y rhestr.

Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ran yn y broses, rwy'n fodlon ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn pam nad ydynt yn fodlon ystyried unrhyw achosion newydd.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

Wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chaffael nwyddau ac is gontractio gwasanaethau, ymha fodd y mae gan y Cyngor hwn griteria sgorio sy'n rhoi pwyntiau i gwmniau/busnesau/cyrff am:

- fuddion cymunedol y maent ac y byddent yn ei ddarparu i'r Gymraeg;
- eu defnydd o'r Gymraeg;
- fod â chanran uchel o staff sy'n siarad Cymraeg;
- ddangos bod ganddynt ymrwymiadau tros y Gymraeg a pholisiau iaith;
- fod â chynllun hyfforddi ar gyfer gwella sgiliau'n y Gymraeg;
- gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg;
- ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith ohebu mewnol ac allanol?

**Ateb – Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg, Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Mae'r trefniadau caffael a'r broses gwerthuso mewnol yn cael ei rheoli'n gyfreithiol o dan y rheoliadau caffael cenedlaethol (Deddf Caffael 2023). Yn unol a'r rheoliadau hynny, mae'n ofynnol i'r asesiad a'r criteria fod yn gyfatebol ac yn gysylltiedig â phwrpas yr hyn â dymunir ei gaffael.

Fel rhan o'r broses caffael i brynu nwyddau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd mae gan y Cyngor fodd i ddefnyddio gwahanol criteria er mwyn asesu'r cynigion. Fel rheol mae'r criteria yn cynnwys asesiad pris ac ansawdd ynghyd âg unrhyw ofynion penodol eraill.

Fodd bynnag, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo addasiad i'r Polisi Caffael Cynaliadwy presennol yn ei gyfarfod ar y 7fed o Dachwedd, 2023. Yn sgil hynny, mae'r Cyngor wedi datblygu a mabwysiadu trefniadau asesu gwerth cymdeithasol ac mae'r iaith Gymraeg yn un o'r mesurau hynny. Mae'r gofyn yma bellach yn ychwanegol i'r criteria pris ac ansawdd.

O ganlyniad, rydym yn gallu asesu ymrwymiad busnesau i fuddsoddi amser ac arian er mwyn hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg wrth gyflawni'r gytundeb gyda'r Cyngor. Gall yr ymrwymiad fod yn rhai amrywiol sy'n ddibynnol ar faint a natur y cwmni sydd wedi tendro ac nid ydym ar hyn o bryd yn eu cyfyngu i gynigion penodol. Gall y cynigion gynnig prentisiaeth, hyfforddiant, arwyddion Cymraeg o fewn y cwmni neu unrhyw gynnig arall sy'n arddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith.

Mae'r Cyngor yn prynu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau o wahanol feysydd ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau unigryw ac arbenigol ar adegau. Yn aml iawn dim ond rhai cwmnïau ddi-gymraeg o du allan yn Sir sydd yn gallu cyflawni'r anghenion hynny. Serch hynny, ble mae'n angenrheidiol i gael gwasanaethau neu systemau drwy gyfrwng y Gymraeg mae'r Cyngor yn manylu'r angen yma yn y tendr ac o ganlyniad, ni fyddwn yn derbyn ceisiadau sydd ddim yn cyrraedd y gofynion hynny.

Mae'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn sgil newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol diweddar ac mae'n fwriad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith am sylwadau yn y dyfodol agos. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o drefniadau arferol y Cyngor.